

Ann Furedi
BPAS Caerdydd
Llawr 1af Tŷ Elgin
106-107 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1DX

Llinell Uniongyrchol: 0300 062 8163
Ffacs: 0300 062 8387
E-bost: HIWinspections@wales.gsi.gov.uk

24 Gorffennaf 2014

Annwyl Ms Furedi,

Parthed: Ymweliad dirybudd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru â Chlinig Gwasanaeth Cyngori Beichiogrwydd Prydain ar 22 Mai 2014 ac arolygiad gyda rhybudd ar 16 Mehefin 2014

Fel y gwyddoch cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ymweliad dirybudd â Chlinig Gwasanaeth Cyngori Beichiogrwydd Prydain (BPAS) ar 22 Mai 2014 ac arolygiad gyda rhybudd ar 16 Mehefin 2014.

Disgrifiad o'r Gwasanaeth Gofal Iechyd

Elusen yn y DU yw BPAS sy'n darparu gofal a gwasanaethau arbenigol ar gyfer menywod sy'n wynebu beichiogrwydd anfwriadol, neu feichiogrwydd y maent yn dewis peidio â pharhau ag ef. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys; profion beichiogrwydd am ddim, ymgynghori, cwnsela anghyfeiriol a diduedd, erthyliad meddygol cynnar, cwnsela ar ôl erthyliad, erthyliad llawfeddygol, dull atal cenhedlu brys (pilsen bore wedyn), a gwasanaethau fasectomi i ddynton.

Golwg Gyffredinol ar y Lleoliad Gofal Iechyd

Cynhaliodd AGIC ymweliad dirybudd â Chlinig BPAS ar 22 Mai 2014 ac fe gynhaliodd ymweliad dilynol gyda rhybudd ar 16 Mehefin 2014. Roedd yr Arolygiad yn canolbwyntio ar archwilio cofnodion cleifion, trafodaethau gyda staff a chleifion, adolygu amrywiaeth o ddogfennaeth, arsylwi ar yr ymadweithio rhwng staff a chleifion, ymyriadau a thriniaethau therapiwtig, ac arsylwi ar yr amgylchedd, y cyfleusterau a'r offer.

Mae BPAS Caerdydd wedi'i leoli mewn adeilad amlfeddiannaeth â mynediad diogel yn Heol Eglwys Fair, Caerdydd. Ceir llinellau gweithredu dros y ffôn y caiff rhai o'r apwyntiadau eu hysgogi ganddynt a llinell gymorth ôl-driniaeth. Roedd cleifion yn cael eu hatgyfeirio at y clinig hefyd trwy'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Roedd

y cleifion yn cael eu gweld trwy apwyntiad ymlaen llaw ac roedd yn ofynnol i ymwelwyr lofnodi'r gofrestr.

Roedd yr awyrgylch yn gyfeillgar a phroffesiynol, yn gwneud cleifion yn gartrefol ac yn parchu eu preifatrwydd ac urddas. Roedd gwasanaeth cwnsela'n cael ei ddarparu a chydysniad gwybodus yn cael ei geisio cyn bod unrhyw driniaeth yn cael ei rhoi.

Fe wnaeth yr ymweliad amlygu'r meysydd nodedig canlynol:

- Roedd adborth y grŵp cleifion am y staff a'r gofal a geir yn gadarnhaol
- Mae ethos y ganolfan yn canolbwyntio ar gleifion, yn ofalgar ac yn dosturiol, gyda pheth wmbredd o amser yn cael ei roi i fynd i'r afael ag anghenion cleifion unigol yn enwedig pan nad yw gwasanaethau lleol y GIG wedi gallu eu diwallu. Mae hyblygrwydd y ganolfan o ran rheoli amrywiadau yn llif y cleifion, yn enwedig pan nad yw gwasanaethau lleol y GIG wedi gallu gwneud hynny, yn nodedig. Mae'r berthynas â gwasanaethau lleol y GIG yn ardderchog ym mhob ffordd
- Roedd y gwaith papur ar gyfer ymarfer seiliedig-ar-dystiolaeth yn llawn gwybodaeth ac mae system reolaidd ar gyfer archwilio pob maes o ran ymarfer a systemau
- Y systemau addysg a hyfforddi i sicrhau bod staff yn cael yr hyfforddiant diweddaraf i ddatblygu eu hymarfer

Gofal Claf-ganolog

Mae BPAS Caerdydd yn cymhwyso'u meini prawf eu hunain ar gyfer derbyn neu wrthod cleifion neu eu hatgyfeirio at ganolfan arall yn ôl cyflwr meddygol neu feichiogiad y claf. Mae gan BPAS Caerdydd hefyd ystod o strategaethau, polisiâu a gweithdrefnau i adnabod a mynd i'r afael ag ystod o anghenion sydd gan gleifion gan gynnwys anghenion corfforol, seicolegol a chymdeithasol. Roedd gwefan genedlaethol BPAS ar gael ac roedd modd ei chyrchu yn yr ystafelloedd aros ac ymgynghori. Roedd llyfrynnau gwybodaeth canolfan Caerdydd yn amrywiol a hefyd ar gael yn yr ystafelloedd aros ac ymgynghori. Roedd y rhain yn addas ar gyfer cleifion ac yn cael eu rhoi i'r holl gleifion sydd hefyd yn gweld cydgysylltydd gofal cleifion i drafod a chytuno ar opsiynau a chael cydysniad gwybodus.

Roedd clinigau ar wahân i ddynion a menywod yn cael eu defnyddio ar gyfer y gwasanaeth terfynu beichiogrwydd a'r gwasanaeth fasectomi. Roedd dewisiadau a blaenoriaethau cleifion wastad yn cael eu cymryd i ystyriaeth gan staff. Mae'r ganolfan yn pwysleisio'r angen am ddulliau atal cenhedlu parhaus ac roedd ystod o wasanaethau cymorth yn cael eu cynnig. Fodd bynnag, cyfyngid ar hyn gan

gomisiynwyr lleol nad ydynt o bosibl yn cwrdd â chostau'r dulliau atal cenhedlu hirdymor mwy cost-effeithiol.

Roedd yr holl gleifion a oedd yn cael erthyliad llawfeddygol yn cael cynnig proffylacsis gwrthfotig ar gyfer Chlamydia Trachomatis ac anerobau ond nid oeddent yn cael cynnig profion fel rhan o'r drefn arferol. Er bod yr uchod yn bodloni argymhellion Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr (RCOG), o safbwynt iechyd y cyhoedd, byddai'n ddewisach pe bai'r holl gleifion yn cael prawf Chlamydia Trachomatis gan y byddai hyn yn ei gwneud yn bosibl i bartneriaid cleifion sydd wedi'u heintio gael triniaeth, oherwydd heb driniaeth i bartneriaid mae'n anochel y bydd cleifion yn cael eu heintio drachefn. Dim ond cleifion a oedd yn talu'n breifat a rhai o gleifion y GIG (gan ddibynnu yn ardal pa fwrdd iechyd y maent yn byw) oedd yn cael cynnig prawf.

Roedd y ganolfan yn darparu mynediad at Language Line ar gyfer cleifion sy'n siarad iaith heblaw Saesneg fel iaith gyntaf. Cynigir ystod o wasanaethau cymorth mewn perthynas ag unrhyw arwydd o gam-drin domestig a chleifion dan 16 oed.

Roedd cleifion yn cael eu hannog i roi adborth trwy holiadur cynhwysfawr. Roedd arolygon "mae eich barn chi'n cyfrif" o fodlonrwydd cleifion ar gael ac roedd cleifion yn cael eu hannog i'w cwblhau fel ffordd o wella'r gwasanaeth. Mae'r arolwg wedi'i gyflwyno'n dda ac wedi'i ysgrifennu'n syml, mewn iaith y gall pobl ei deall, ac mae'n archwilio safbwyntiau am faterion ansoddol a meintiol pwysig. Roeddent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac roedd camau gweithredu'n cael eu cymryd mewn ymateb i faterion fel rhan o'r rhaglen llywodraethu clinigol. Roedd yr adroddiad diweddaraf yn gadarnhaol iawn.

Roedd polisi a gweithdrefn i ymdrin â chwynion. Roedd copi o'r weithdrefn gwynion yn cael ei arddangos ar yr hysbysfyrdau yn yr ardal aros ac roedd taflenni ar gael hefyd i gleifion eu codi. Roedd system yn bodoli ar gyfer cofnodi, ymchwilio ac adrodd mewn modd amserol.

Ansawdd y Gofal am Gleifion

Dywedodd un claf a siaradodd gyda'n hadolygwr ni ei bod wedi cael ei thrin â sensitifrwydd a thosturi o'r dechrau i'r diwedd. O'i chyswllt cyntaf â'r ganolfan, cafodd fod staff wedi bod yn broffesiynol, yn barod i helpu ac roedd wedi cael sicrwydd ynghylch cyfrinachedd. Roedd y claf wedi cael ei siomi ar yr ochr orau bod staff yn peidio â barnu ac yn dangos parch.

Roedd y claf wedi cael y llyfryn gwybodaeth a oedd yn dweud popeth wrthi am y driniaeth, dewisiadau, enwau a rhifau cyswllt, mewn iaith a oedd yn hawdd i'w deall. Roedd hyn wedi bod o gymorth mawr i'r claf ar ôl ei hymgyngoriad, gan y gallai fynd ymaith a rhoi sylw i'r holl faterion ac ystyried ei dewisiadau yn ei hamser ei hun.

Yn ystod pob cam o'i thriniaeth, cafodd fod yr holl staff y cwrddodd â hwy'n ofalgar, yn gysurion, ac yn tawelu ei meddwl mewn amgylchiadau a oedd yn anodd iddi. Cafodd y claf hefyd fod yr amgylchedd yn llonyddol ac yn groesawus. Roedd y claf yn hyderus bod ansawdd ei gofal o safon uchel a bod staff meddygol a nyrsio'n gymwys, yn wybodus ac yn egluro popeth ac yn gallu ateb ei holl gwestiynau a phryderon.

Yn ei hymgyngoriad cychwynnol, (fel sy'n arferol yn y ganolfan, i sicrhau mai'r fenyw piau'r dewis yn y pen draw mewn penderfyniadau a wneir) cafodd ei hysbysu ei bod yn mynd i gael ei gweld heb ei phartner. Er ei bod yn deall y rhesymeg dros y penderfyniad, yn dilyn trafodaeth gychwynnol am ei dewis, fe hoffai fod wedi dewis cael ei phartner yn bresennol trwy gydol y drafodaeth ac nid oedd yn teimlo bod yr opsiwn yn agored iddi.

Wrth drafod gyda rheolwr y ganolfan, cafodd yr adolygwyr eu harwain i ddeall, yn dilyn trafodaeth gychwynnol gyda'r fenyw, bod dewis yn y mater yma, ond yn amlwg nid oedd y claf dan sylw wedi deall hyn ac mae'n rhywbeth y bydd y rheolwr yn sicrhau ei fod yn cael ei wneud yn glir i gleifion yn y dyfodol.

Preifatrwydd ac Urddas

Roedd tystiolaeth glir bod preifatrwydd ac urddas yn cael eu hystyried yn ystod pob cam o brofiad cleifion a'u bod yn rhan annatod o athroniaeth y gwasanaeth. Mae ystafelloedd ymgynghori'n breifat ac yn dawel a gall cleifion gael trafodaethau, gyda'r drws ar gau, gan fod â sicrwydd o breifatrwydd a cheir ardaloedd preifat, tawel i gleifion eistedd ar unrhyw adeg. Gall cleifion gael hebryngwr os ydynt yn dewis.

Roedd digwyddiad wedi bod gyda phrotestwyr hawl-i-fyw a grwpiau gwrthwynebol yn gwrthdystio y tu allan i'r ganolfan. Roedd hon yn amlwg yn sefyllfa anodd a allai fod wedi cael effaith ddifrifol ar gleifion a oedd yn mynychu'r clinig. Fodd bynnag, er ei fod wedi amharu ychydig, cafodd y mater ei reoli'n sensitif iawn gan y tîm gyda'r pwyslais mwyaf yn cael ei roi ar breifatrwydd ac urddas cleifion mewn unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd.

Wrth iddynt gyrraedd y clinig, gwelwyd cleifion yn cael eu gwneud i deimlo'n gartrefol ac yn cael eu trin ag urddas a pharch.

Cyfrinachedd Cleifion

Wrth drafod cleifion ac yn eu cyswllt â chleifion, mae'r holl staff yn rhoi sicrwydd o gyfrinachedd ac yn ystyried ei fod o'r pwys mwyaf. Mae'r holl staff yn ymwybodol iawn o'r angen am gyfrinachedd ac yn sensitif i hynny ac mae ei bwysigrwydd yn tanategu'r holl raglenni hyfforddiant sefydlu a pharhaus ar gyfer staff.

Llywodraethu Clinigol

Roedd ystod eang o brotocolau a gweithdrefnau'n bodoli, a defnyddir rhestrau gwirio i sicrhau bod statws rhesws, a risgiau o anaemia a thrombosis gwythiennol wastad yn cael eu gwirio. Mae llwybrau gofal addas yn bodoli gan gynnwys rheoli cleifion â beichiogrwydd anhyfyw. Mae rhestr wirio gynhwysfawr ar gyfer diogelwch llawfeddygol yn cael ei defnyddio hefyd ac yn cael ei chwblhau ar gyfer yr holl gleifion cyn y llawdriniaeth.

Roedd tystiolaeth eglur o archwiliadau mynych o brosesau clinigol ac anghlinigol a newid dilynol mewn arferion. Roedd rhaglen dreigl o archwiliadau a oedd yn rhoi sylw i nifer o feysydd gan gynnwys cadw cofnodion, fferylliaeth, iechyd a diogelwch, rheoli heintiau, a glanweithdra. Roedd ystod o weithdrefnau'n bodoli hefyd i ymdrin â digwyddiadau clinigol a digwyddiadau eraill. Fe adolygwyd digwyddiadau diweddar ac roedd tystiolaeth glir bod cynlluniau gweithredu wedi cael eu datblygu yn dilyn y digwyddiadau hyn.

Mae gan y ganolfan offer addas i ymdrin ag argyfyngau ac mae staff wedi cael hyfforddiant i'w defnyddio. Mae llwybr eglur i drosglwyddo cleifion â salwch aciwt i ysbyty'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) gerllaw, er mai prin iawn yw'r achlysuron pan fu'n angenrheidiol gwneud hyn.

Roedd ystod o bolisïau a gweithdrefnau ar gael mewn perthynas â rhagnodi, dosbarthu a rhoi meddyginiaeth ac roedd staff yn cydymffurfio â'r rhain ar adeg yr arolygiad. Nid oedd unrhyw gyffuriau a reolir yn cael eu storio yn y sefydliad.

Mae ystod o bolisïau a gweithdrefnau'n bodoli ar gyfer rheoli heintiau, gwaredu gwastraff, dadhalogi a chadw tŷ ac roedd amserlenni glanhau wedi'u sefydlu. Mae agweddau ar reoli heintiau'n cael eu harchwilio'n rheolaidd. Roedd ystod o bolisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch ac roedd staff yn ymwybodol ble i ddod o hyd i'r rhain os oedd angen cyfeirio atynt. Hefyd, roedd ystod o asesiadau risg a oedd wedi cael eu cwblhau.

Cafodd y cofnodion clinigol eu hadolygu a chafwyd eu bod yn gyflawn, yn ddealladwy, yn gyfoes (cofnodion yn cael eu diweddarau ar y pryd) ac yn unol ag ystod o safonau meddygol a nyrsio. Roedd yr holl gofnodion yn cael eu storio'n saff ac yn cael eu cynnal yn ddiogel.

Mae gan BPAS restrau gwirio a phrotocolau i adnabod plant ac oedolion sydd mewn perygl o gamfanteisio rhywiol neu fathau eraill o gam-drin ac maent yn gweithio gyda chleifion ac asiantaethau eraill mewn perthynas â'r maes hwn.

Roedd staff y siaradwyd gyda hwy yn ymwybodol o'r egwyddorion a'r trefniadau ar gyfer llywodraethu clinigol. Mae gwybodaeth glinigol ac ymarfer arloesol yn cael eu hannog yn lleol a thrwy fforymau a galwadau cynadledda ar draws y sefydliad. Ceir

protocolau clinigol safonedig, wedi'u hamlinellu gan BPAS, sy'n weithredol ar draws holl ganolfannau BPAS. Cyfeirir at y rhain ac maent yn seiliedig ar dystiolaeth lle bynnag y bo'n bosibl a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Hefyd, mae gan BPAS strategaeth cwmni ar ymchwil ac mae'r ganolfan yn rhwydweithio gyda darparwyr eraill i rannu a hybu arfer da. Roedd archwiliadau a phrosesau eraill i wella ansawdd yn rhan annatod o ethos y gwasanaeth ac yn cael eu cyflawni'n rheolaidd, gyda gwelliannau nodedig mewn arfer.

Rheolaeth a Phersonél

Cafodd sampl o gofnodion staff ei hadolygu ac roedd yr holl gofnodion a adolygwyd yn cynnwys ffurflenni cais, cofnod o gyfweiliadau, contractau, cadarnhad o wiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) neu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), cofnod o hyfforddiant sefydlu, asesiadau o gymhwysedd clinigol, tystiolaeth o gymwysterau a enillwyd, a chofrestriad priodol gyda chorff proffesiynol. Nodwyd fod staff yn cael arfarniadau addas a rheolaidd gyda mewnbwn gan gyfarwyddwr meddygol y cwmni a rheolwr y ganolfan.

Mae anghenion hyfforddi'r staff yn cael eu hadnabod yn rheolaidd ac yn adlewyrchu anghenion cleifion, datblygiad proffesiynol yr unigolyn ac yn sicrhau ymarfer cyfredol, seiliedig-ar-dystiolaeth. Fel rhan o'u hyfforddiant sefydlu mae staff yn ymweld â chanolfannau eraill ac yn cael eu cyflwyno i arweinyddwr clinigol ac eraill o fewn BPAS y gallant gysylltu â hwy i gael cyngor a chymorth. Mae'r clinig yn buddsoddi mewn hyfforddiant ac roedd staff wedi diweddarau eu hyfforddiant gorfodol ac wedi cael hyfforddiant perthnasol arall i wella'u gofal am gleifion. Roedd cysylltiad agos rhwng hyfforddiant a chynlluniau rheoli perfformiad staff ac roedd fframwaith cymhwysedd ar gael i'r holl staff.

Arweinyddiaeth Glinigol a Gwaith Tîm

Roedd staff yn siarad am ac yn arddangos gwaith tîm aml-ddisgyblaethol effeithiol ac ymdeimlad gwirioneddol o ysbryd tîm. Siaradodd staff am gyfleoedd ardderchog i gael hyfforddiant ac i rannu arfer â chanolfannau eraill i sicrhau'r safonau gofal uchaf ar gyfer eu cleifion ac i alluogi eu datblygiad proffesiynol parhaus hwy eu hunain.

Roedd arddull arwain cryf a grymusol yn cael ei arddangos gan reolwr y ganolfan, sy'n cael ei pharchu'n fawr gan ei staff ac sy'n rhoi cymorth ac anogaeth i glinigwyr arwain a chynghori ar ofal clinigol ac ymarfer proffesiynol. Roedd staff yn teimlo'u bod yn cael cymorth proffesiynol a phersonol ardderchog.

Roedd anghenion o ran hyfforddiant gorfodol yn cael eu hadnabod fel rhan o'r rhaglen sefydlu staff ac roedd y rhain ar gael yn fuan ar ôl dechrau'r gyflogaeth.

Roedd rhaglen barhaus o hyfforddiant a datblygiad ar gyfer yr holl staff, gan gynnwys hyfforddiant galwedigaethol a sgiliau a chymwyseddau sy'n ofynnol o fewn eu rôl, ac yn aml i ymestyn eu rôl. Er enghraifft, roedd hyfforddiant yn cynnwys sgiliau cyfweld, fel bod staff yn gallu cyfranogi mewn cyfweiliadau ar gyfer ymgeiswyr newydd, neu hyfforddiant i gwblhau sganiau arbenigol.

Dywedodd aelod o staff a oedd wedi'i phenodi'n ddiweddar nad oedd hi erioed wedi gweithio yn unrhyw le a theimlo'i bod yn cael ei gwerthfawrogi gymaint, a bod ei safbwyntiau a'i barn yn cael eu parchu gymaint a'i bod wir yn mwynhau dod i'r gwaith.

Roedd cyfarfodydd staff misol, lle'r oedd cyfle i drafod arfer da, polisiau newydd, a chyfarfodydd un i un niferus gyda rheolwr y ganolfan i drafod materion unigol, hyfforddiant, a materion o ran ymarfer ac ati. Yr unig fater a allai wella yn nhyb y staff oedd mwy o le a gwell cyfleusterau storio.

Ymchwil, Datblygu ac Arloesi

Nodwyd fod gan BPAS strategaeth cwmni ar ymchwil ac er bod y ganolfan yn rhwydweithio gyda darparwyr eraill i hybu arfer da, nid yw'n chwarae rhan weithredol mewn ymchwil sy'n cael ei chyhoeddi.

Y Safle, y Cyfleusterau a'r Amgylchedd

Mae'r amgylchedd wedi'i addurno a'i ddodrefnu'n chwaethus. Mae lliw'r waliau a'r dodrefn yn creu naws dawel a dymunol iawn sy'n cael ei gwerthfawrogi gan gleifion a staff. Mae peiriant gwneud diodydd yn yr ardal aros ac mae lleoedd ac ystafelloedd preifat tawel, cyfforddus i gleifion. Oherwydd natur yr ymweliad dirybudd, nid oedd modd gweld yr holl ddogfennaeth.

Rhoddyd adborth ar yr eitemau canlynol yr oedd angen rhoi sylw iddynt, a chafodd y rhain eu hadolygu mewn arolygiad dilynol a drefnwyd ar gyfer dydd Llun 16 Mehefin am 10.00am.

- Gwahanu a diogelu'r silindrau entinocs ac ocsigen yn Ystorfa 1
- Ymchwilio i'r arogl o'r draen yn y toiled i bobl anabl. Argymhellir bod y trap gwastraff ar gyfer y basn golchi dwylo'n cael ei lanhau a'i ail-selio i ddechrau
- Adolygu mynediad at fannau storio uchel yn Ystorfa 2, yn unol â pholisiau iechyd a diogelwch BPAS
- Diogelu'r braced rhydd ar y diffoddwr tân CO2 ar bwys y fynedfa i'r ystafell driniaeth

- Darparu tystiolaeth o brofion ar y larwm tân, yn wythnosol, bob tri i chwe mis a phob 12 mis
- Darparu tystiolaeth o brofion ar y goleuadau argyfwng, bob mis, bob chwe mis (un awr). Roedd y dystysgrif ddiwethaf o brawf dadwefru am dair awr ar gael
- Darparu copi o'r adroddiad Profi Dyfeisiau Cludadwy, Hydref 2013
- Darparu adroddiad ar osod falf ynysu newydd ar gyfer y system nwy
- Darparu cynlluniau gweithredu i roi sylw i'r pwyntiau sy'n dal heb gael sylw ers yr adolygiad diwethaf o'r Asesiad Risg Tân a'r archwiliadau iechyd a diogelwch ar 6 Hydref 2013
- Darparu cynllun gweithredu i roi sylw i ofynion yr Asesiad Risg ar gyfer Clefyd y Llengfilwyr ar 24 Mai 2013
- Darparu copi o hysbysiad 'Dyletswydd Gofal' ar gyfer SRCL, y cwmni gwastraff clinigol a benodwyd i waredu gwastraff clinigol. Hefyd, darparu copïau o'r adroddiadau casglu diweddar
- Darparu copi o dystysgrif diogelwch nwy gyfredol y landlord
- Rhoi sylw i dymheredd isel y dŵr oer yn ddiweddar yn y toiled i bobl anabl

Yn yr ymweliad dilynol gyda rhybudd ar 16 Mehefin 2014, roedd yr arolygiad yn canolbwyntio ar wybodaeth dechnegol yr oedd angen rhoi sylw iddi ers yr arolygiad dirybudd diwethaf ar 22 Mai 2014.

Roedd yr adroddiad diwethaf ar drin y gosodiad larwm tân yn nodi bod angen gosod batris newydd, ac roedd y rhain i fod i gyrraedd heddiw. Roedd rhai ymholiadau a oedd yn dal heb eu datrys mewn perthynas â'r gosodiad goleuadau argyfwng. Roedd Profion Dyfeisiau Cludadwy (PAT) wedi cael eu cwblhau, ac roedd amserlen profi ar gael.

Roedd y falf ynysu ar gyfer y system nwy wedi cael ei gwblhau, ac felly hefyd y rhan fwyaf o'r eitemau yr oedd angen rhoi sylw iddynt yn yr adroddiad iechyd a diogelwch mewnol. Bydd y materion sy'n dal heb gael sylw'n cael eu cyfleu mewn llythyr at y landlord. Roedd y landlord wedi comisiynu ei asesiad ei hun o ddsbarthu dŵr yn yr adeilad, a fydd yn cynnwys y problemau a adnabuwyd yn y ganolfan BPAS. Dangoswyd hysbysiad dyletswydd gofal ar gyfer y contract gwastraff clinigol, ac roedd hwn yn ddilys am gyfnod o dair blynedd. Roedd y problemau o ran yr arogleuon yn y toiled i bobl anabl wedi cael eu datrys, ac roeddent i'w priodoli i ddarn diffygiol o'r bibell faw fertigol.

Rhoddyd adborth ar lafar trwy gydol ac ar ddiwedd y ddau ymweliad.

Nid oes unrhyw ofynion rheoleiddiol sydd heb gael sylw yn deillio o'r arolygiad hwn.

Argymhellion Arfer Da

Ail-alinio'r slatiau ar y llen ddelltog, lle maent wedi cael eu gwahanu i agor ffenestri.


Dylid ei gwneud yn fwy eglur i gleifion, yn dilyn trafodaeth breifat gychwynnol, os ydynt yn dymuno bod eu partner yn bresennol ar gyfer yr ymgynghoriad, mai eu dewis hwy fydd hynny.

Hoffai AGIC ddiolch i'r holl aelodau o staff am eu hamser a'u cydweithrediad yn ystod yr ymweliad.

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn ddiymdroi os byddwch yn dymuno trafod cynnwys y llythyr hwn.

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Ms Vivienne Rose, Rheolwr Cofrestredig yn BPAS Caerdydd.

Yn gywir



Phil Price
Rheolwr Arolygu